# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion (CC(3)-08-08)

**Dyddiad: 7 Mai 2008**
**Amser: 9.00am – 10.36am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Janice Gregory, Ogwr (Cadeirydd)
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Chris Reading, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

Jocelyn Davies, Y Dirprwy Weinidog dros Dai
Linda Whittaker, Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Dai
Paul Webb, Pennaeth yr Uned Strategaeth a Gwasanaethau Tai
Sophie Howe, Uwch Swyddog Gwleidyddol
Jennifer Dunne, Swyddog Ymchwil a Rhagolwg

### 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dai Lloyd AC

### 2: Craffu ar Waith y Gweinidog – Y Dirprwy Weinidog dros Dai

Papur: CC(3)-08-08(p.1)

2.1 Ymatebodd y Dirprwy Weinidog i gwestiynau gan y Pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu copi i'r Pwyllgor o'r canllawiau arbenigol a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol mewn perthynas â thrais domestig.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am yr unedau newydd o dai fforddiadwy, cyn diwedd tymor yr haf,.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ofyn i'r Gweinidog Iechyd ddosbarthu i'r Pwyllgor y protocol i ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer cael gwared ar dir sydd dros ben ar gyfer tai.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i egluro unrhyw drafodaethau gyda'r Trysorlys ynghylch y derbyniadau cyfalaf o werthiant tir i ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer tai fforddiadwy.

### 3: Ymchwiliad i gam-drin domestig – Tystiolaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)

Papur: CC(3)-08-08(p.2)

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan y Pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddarparu copïau i'r Pwyllgor o'r adroddiad 'Map of Gaps'

Cytunodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i egluro pwynt a godwyd ynghylch ystadegyn yn ymwneud â thrais yn erbyn dynion.